



TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

Achos TyG/WLT/18/5

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth v Comisiynydd y Gymraeg

CRYNODEB O BENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS (at bwrpasau gwybodaeth y cyhoedd yn unig)

Roedd aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") wedi cwyno i Gomisiynydd y Gymraeg (CyG) ei fod wedi ffonio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yng Nghymru ac wedi siarad yn Gymraeg â'r sawl a atebodd y ffôn ond nad oedd y person hwnnw'n medru delio â'i ymholiad yn Gymraeg. Yn lle hynny, trefnwyd i swyddog a oedd yn medru Cymraeg, ac a oedd yn medru delio â'i ymholiad, i ffonio'r Achwynydd yn ôl yn hwyrach yn y dydd. Cynhaliodd CyG ymchwiliad i'r cwestiwn a oedd SCG wedi cydymffurfio â'i dyletswydd, o dan safon y Gymraeg perthnasol (safon 11). Mynnodd y safon honno fod yn rhaid i'r SCG ddelio â galwad gan rywun a oedd am siarad yn Gymraeg yn yr iaith honno hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad oedd yn medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oedd aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Dyfarnodd CyG fod SCG wedi methu â chydymffurfio â'r safon dan sylw a gorchymynnodd i SCG baratoi cynllun gweithredol yn dangos pa gamau y byddai'n eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 11. Apeliodd SCG i'r Tribiwnlys, o dan adran 95(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn erbyn dyfarniad CyG.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys fod ganddo awdurdodaeth lawn, o dan adran 95, i ddod i'w farn ei hun ar bob cwestiwn o gyfraith ac o ffaith. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, nid oedd unrhyw anghydfod rhwng y partïon ynghylch y prif ffeithiau. Gweithdrefn safonol SCG ar gyfer delio gyda galwadau yn Gymraeg oedd bod yn rhaid i aelodau o'r staff gyfarch pawb oedd yn ffonio yn ddwyieithog ond y dylid rhoi dewis i rywun a oedd yn ffonio, os oedd hwnnw'n dymuno siarad Cymraeg ac os nad oedd yr aelod o'r staff yn medru Cymraeg, naill ai i barhau gyda'r alwad yn Saesneg neu i'r SCG drefnu galwad yn ôl oddi wrth rywun a oedd yn medru Cymraeg. Roedd yn amlwg nad oedd hyn yn cydymffurfio â dyletswydd SCG i "ddelio â'r alwad yn Gymraeg" hyd nes ei bod yn angenrheidiol i'w throsglwyddo i rywun nad oedd yn medru Cymraeg er mwyn delio gyda phwnc penodol. Doedd dadl SCG ei fod yn afresymol i "orfodi" staff i roi cyngor ar faterion technegol a chyfreithiol cymhleth mewn ail iaith ddim yn berthnasol. Y cyfan yr oedd yr Achwynydd yn ei ddymuno oedd i natur cyffredinol ei ymholiad gael ei drafod yn Gymraeg ac iddo gael ei drosglwyddo i rywun a fedrai ddelio ag ef - yn Gymraeg os yn bosibl, neu yn Saesneg os nad oedd

siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio gyda'r pwnc penodol. Nododd y Tribiwnlys nad oedd SCG wedi apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn gosod arno'r safon dan sylw, ar sail afresymoldeb neu anghymesuredd, a bellach, gan fod y safon wedi dod i rym roedd yn ddyletswydd ar SCG i gydymffurfio ag ef. Gwrthododd y Tribiwnlys yr apêl a chadarnhaodd ddyfarniad CyG.

29 Mawrth 2019